

POLISI CEISIADAU CYNLLUNIO CYNGOR TREF PORTHMADOG

166. Cyng. Simon Brooks. - cynnig fod y Cyngor Tref yn nodi eu safiad cadarn ar geisiadau cynllunio sydd efo cymal 106 gan nodi eu bod yn gwrthwynebu unrhyw geisiadau i ddiddymu'r cymal yma. Y Clerc i gael hawl i ymateb ar ran y Cyngor Tref ar unrhyw geisiadau sydd am ddiddymu'r cymal 106 sydd efo dyddiad cau cyn cyfarfod nesaf y Cyngor Tref. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ian Jones. Cynigiodd y Cyng. Jason Humphreys welliant fod y Clerc yn danfon bob cais cynllunio ymlaen i gynghorwyr ar e-bost. Eiliwyd y gwelliant gan y Cyng. Selwyn Griffiths. Derbyniwyd y gwelliant.

Penderfynwyd : ymateb yn ôl y cynnig. (Rhagfyr 2019)

Yng nghyfarfod Cyngor Tref Porthmadog ar Ragfyr 10fed 2019 penderfynwyd derbyn y cynnig uchod gan y Cyng Simon Brooks a'i fabwysiadu fel polisi ar gyfer y dyfodol.

Golyga hyn felly:-

- Bydd y Cyngor Tref yn gwrthwynebu unrhyw gais cynllunio sydd am ddiddymu Cymal 106 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
- Bydd y Clerc â hawl i ymateb ar ran y Cyngor Tref ar unrhyw geisiadau sydd am ddiddymu'r cymal 106 sydd efo dyddiad cau cyn cyfarfod nesaf y Cyngor Tref.

Arwyddwyd: Aled Griffith

Cadeirydd 2023-2024

Dyddiad : Mai 9 2023